# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol (yn cychwyn 8:15 y.h. am yr 20 munud cyntaf o flaen y prif gyfarfod – nos Iau, 13eg o Fai, 2021 drwy 'Zoom'. <u>Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.</u>**

<u>**Yn bresennol**</u> drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Tegid Jones, Angela Williams, Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes, Anwen Jones, Naomi Jones, Ceri Jones, Darren Morley a'r Clerc.

1. Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.

<u>**Ymddiheuriadau**</u>: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Gareth O. Davies, Sion Aled Jones, a Trefor Wyn Jones.

2. <u>**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 18fed o Fehefin, 2020**</u> (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 13.05.2021).

3. <u>**Materion yn codi o'r cofnodion**</u> – dim.

4. <u>**Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2020 i'r 31ain o Fawrth, 2021**</u> gan y Cadeirydd. Eglurodd ei bod yn gyfnod tra wahanol mewn hanes yn sgíl y pandemig, ond er hynny fe lwyddwyd i barhau gyda'r gwaith arferol i gyd drwy ddefnyddio technoleg'zoom' yn benodol. Fe wnaed yr holl waith cynnal a chadw yn ol yr arfer, trafod ceisiadau cynllunio a'r ceisiadau am gymorth ariannol er gwaethaf y sefyllfa. Diolchodd i bawb am ei cymorth.

5. <u>**Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2020 i'r 31ain o Fawrth, 2021**</u> gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2021, a byddent yn barod i gael ei anfon i gael ei archwilio.

Rhannwyd taflenni yn dangos crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 31ain, 2021 a chysoniad y banc am y flwyddyn, a oedd yn egluro y gwariant ac incwm yn fanwl.

Dechrau Ebrill 2020 roedd cyfanswm o £12,321.59 yn y 3 cyfrif.

Erbyn diwedd Mawrth 2021 roedd y cyfanswm yn £13,496.92 yn y 3 cyfrif.
Y prif wariant yn ystod y flwyddyn oedd:-

- Rhodd o £1500.00 tuag at PPE, Tý Doctor, Nefyn.
- Derbyniwyd ad-daliad TAW o £1,113.65 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £207.48.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £3996.20 gan gwmni Lightsource a oedd yn £44.81 yn fwy na'r flwyddyn cynt.

Fe dalwyd £8,100.00 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol, a £2789.90 o'r cyfrif Lightsource, sef cyfanswm o £10,889.90 rhwng y ddau gyfrif. Roedd hyn y cynnwys talu am gyswllt Wifi mewn 3 pentref, gwasanaeth O Ddrws I Ddrws, mynwentydd lleol, cylchoedd meithrin, clybiau lleol, neuadd a Menter y Plu.
Y gobaith yw y gellir parhau i osod arwyddion pontydd yn y gymuned, er mwyn cadw'r enwau ar gof a chadw yn y dyfodol.
Roedd y praesept o £18,000.00 er mwyn galluogi gwneud mwy i'r gymuned.
Y bwriad yw parhau hefo'r drefn o anfon y gyllideb/cyfrifon bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant yn sgîl argymhelliad gan yr archwiliad allannol. Diolchodd y Clerc i bawb am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso ei gwaith.

6. **Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau,** ond nid oedd neb yn bresennol.

7. **Ethol swyddogion** am y flwyddyn 1af Ebrill, 2021 i 31ain o Fawrth, 2022:
a) **Cadeirydd- y Cynhorydd Tegid Jones** (bydd angen trefnu i lofnodi ffurflen datgan derbyn swydd).

b) **Is gadeirydd- y Cynghorydd Angela Williams** (bydd angen trefnu ffurflen llofnodi datgan derbyn swydd).

c) **Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol**- Bethan Parry Jones - dim newid.

ch) **Elusen William Ellis,** Llanystumdwy, - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy, bydd angen trefnu i Sian Parry a Darren Morley fod yn ychwanegol i allu llofnodi siec pan fydd angen ym mhwyllgor mis Rhagfyr.

8. Cadarnhawyd nad oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor.

9.Dewis cynrychiolydd i:-
Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru – yr Is-Gadeirydd Angela Williams.
Grwp Mynediad Dwyfor – penderfynwyd gofyn i Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog barhau i fod ar y grwp.

Diolchwyd i'r cyn Gadeirydd y Parchedig Aled Davies a'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**